

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) **Diwrnod y cyfrifiad: 20 Ionawr 2026**

Y casgliad data CYBLD ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/2026

Nodiadau cwblhau technegol

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2025

Fersiwn: 1.0

Casgliad data CYBLD

20 Ionawr 2026 (diwrnod y cyfrifiad)

Cynulleidfa	Penaethiaid ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol.
Trosolwg	Llywodraeth Cymru sy'n darparu'n nodiadau cwblhau technegol hyn i helpu'r gynulleidfa uchod i gydymffurfio â'u dyletwyddau statudol.
Camau angenrheidiol	Rhaid i bob ysgol babanod, cynradd, uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir yng Nghymru gwblhau dychweliad CYBLD.
Manylion pellach	Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar lenwi unrhyw ran o'r casgliad yma, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

Dylid anfon ymholiadau am y ddogfen hon at:

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
Y Tîm Casgliadau Data
Y Gangen Gwybodaeth a Gwellu Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 5014 / 0300 025 3358
E-bost: IMS@llyw.cymru / PLASC@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen yma ar gael ar wefan Llywodaeth Cymru yn llyw.cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



ISBN digidol 978-1-80633-350-9
© Hawlfraint y Goron Medi 2025
WG52945

Cynnwys

1. Trosolwg	2
Tabl 1: Amserlen ar gyfer CYBLD 2026	2
1.1 Newidiadau mawr ers y llynedd	2
2. Newidiadau i CYBLD blwyddyn yma	3
2.1 Pontio o'r system AAA i'r system ADY	3
2.2 Eitemau daya Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'u cyflwyno	3
3. Datblygiadau yn y dyfodol	4
3.1 Cyflwyniad Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) a data gweithlu CYBLD	4
3.2 Adolygiad hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd	4
3.3 Datblygiadau yn y Dyfodol: Casglu Data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	4
3.4 Datblygiadau eraill	4
4. Cyflwyniad	5
5. Cofnodi a gwirio data	7
6. Crynodeb o'r meysydd data i'w cynnwys yng nghasgliad data CYBLD	8
7. Data disgyblion unigol	14
7.1 Sut caiff y broses o gofrestru disgyblion eu diffinio?	14
7.2 Disgyblion a waharddwyd (yn barhaol ac am gyfnod penodol) ym mlwyddyn ysgol 2024/2025	14
8. Staff addysgu a staff cymorth	16
9. Dosbarthiadau fel y'u haddusgir	18
10. Dilysu data a chywiro gwallau	20
11. Crynodeb yr ysgol	21
12. Anfon y datganiad i'ch awdurdod lleol	22
Atodiad A: Nodiadau cwblhau manwl yn ôl maes data	23
Atodiad B: Codau dilys 2020 ar gyfer cefndir ethnig	137
Atodiad C: Codau dilys ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol, gyda disgrifiadau	140
Atodiad D: Codau dilys ar gyfer iaith gyntaf	141
Atodiad E: Data sydd eu hangen ar gyfer staff addysgu a staff cymorth	148
Atodiad F: Data sydd eu hangen ar gyfer dosbarthiadau fel y'u haddysgir	150

1. Trosolwg

Mae'r nodiadau hyn ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir (meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig) a'r awdurdodau lleol er mwyn cwblhau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr 2026. Cyhoeddwyd y nodiadau hyn i sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r eitemau data sy'n ofynnol ar gyfer CYBLD ac i helpu ysgolion i ddarparu'r eitemau data hynny yn ôl y diffiniadau cyffredin.

Rhaid i bob disgybl sydd ar y gofrestr gael ei gynnwys ar y datganiad CYBLD. Bydd data CYBLD ynghylch niferoedd disgyblion a'r niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael eu defnyddio wrth ddyrannu'r cyllid. Felly, edrychwch yn ofalus iawn ar yr adroddiadau a grëwyd yn [DEWi](#) oherwydd caiff y data effaith fawr ar y modd y caiff cyllid ei gyfrifo yn y dyfodol. Caiff yr wybodaeth gyd-destunol a ddarperir (megis enw'r ysgol) ei ddefnyddio ar wefan [Fy Ysgol Leol](#) ac yn [Setiau Data Craidd Cymru Gyfan](#). Felly, mae'n hollbwysig bod y Pennaeth yn fodlon ar gywirdeb y datganiad CYBLD cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dylai ysgolion gadw at yr amserlen ganlynol er mwyn sicrhau eu bod yn dychwelyd ffurflen heb wallau sydd mor gywir â phosibl i Lywodraeth Cymru erbyn **dydd Gwener 6 Mawrth 2026**. Ni fydd modd cyflwyno unrhyw ffurflenni pellach ar ôl y dyddiad hwn.

Dim ond drwy ailgyflwyno ffeil CYBLD y caniateir diwygiadau, a hynny cyn diwedd tymor yr haf nid yn yr hydref pan fydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu cyfrifiadau cyllid i'r awdurdodau lleol. Sylwer mai dim ond disgyblion sydd â statws cofrestru **M** (Prif Gyfredol) neu **C** (Cyfredol) a fydd yn cael eu cynnwys at ddibenion cyfrifo cyllid, h.y. ni fydd disgyblion sydd â statws **S** (Atodol Cyfredol) neu **G** (Disgybl sy'n Westai) yn cael eu cynnwys.

Tabl 1: Amserlen ar gyfer CYBLD 2026

Dyddiad	Gweithrediad
Dydd Mawrth 20 Ionawr 2026	Diwrnod cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026
Dydd Mawrth 20 Ionawr 2026	DEWi yn agor ar gyfer data CYBLD
Pennu gan yr awdurdod lleol	Dychwelyd i'r Awdurdod Lleol drwy DEWi
Dydd Gwener 6 Mawrth 2026	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau i Lywodraeth Cymru drwy DEWi

1.1 Newidiadau mawr ers y llynedd

Mae'r rhestr ganlynol yn dangos y prif newidiadau ers y casgliad CYBLD o'r cyfnod blaenorol:

- dyddiadau wedi'u symud ymlaen blwyddyn;
- mae eitem data Anghenion Addysg Arbennig (AAA) wedi'i dileu; a
- mae eitemau data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'u cynnwys

2. Newidiadau i CYBLD blwyddyn yma

2.1 Pontio o'r system AAA i'r system ADY

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gynhwysol lle mae pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion a gynhelir a chael mynediad ati. Mae hyn yn cynnwys symud i'r system ADY ochr yn ochr â gweithredu Cwricwlwm Cymru sy'n anelu at chwalu rhwystrau i bob dysgwr a rhoi mwy o hyblygrwydd i athrawon i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr orau.

Cafodd y system ADY ei gweithredu dros bedair blynedd rhwng mis Medi 2021 ac Awst 2025. Mae'r system yn cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru ag ADY ac mae wedi disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau (AAD). Crëwyd y fframwaith deddfwriaethol ADY gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf), Cod ADY Cymru 2021 a rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf ADY.

Ar ôl cwblhau'r newid o'r system AAA i ADY, ni fydd Llywodraeth Cymru bellach yn ei gwneud yn ofynnol cofnodi gwybodaeth am y system AAA nac yn cael sail ddeddfwriaethol i gasglu gwybodaeth amdani. Felly, gwnaed newidiadau i eitemau data sy'n gysylltiedig â'r system AAA i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r system ADY. Amlinellir y newidiadau hyn isod, ac mae gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y meysydd perthnasol yn yr Atodiad.

2.2 Eitemau data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'u cyflwyno

Yn dilyn diwedd y system AAA, a chael gwared ar eu heitemau data cysylltiedig ar ôl Awst 2025, mae'r system ADY newydd yn cymryd yr awenau ac yn mynd i'w chyfnod ôl-weithredu o fis Medi 2025. O ganlyniad, mae'r eitemau data newydd sy'n gysylltiedig ag ADY i'w cyflwyno. Mae'r newidiadau hyn, er eu bod yn eitemau data newydd yn dechnegol, yn newid terminoleg i raddau helaeth o'r eitemau data AAA blaenorol.

3. Datblygiadau yn y dyfodol

3.1 Cyflwyniad Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) a data gweithlu CYBLD

Ym mis Tachwedd 2019 cyflwynwyd Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) yng Nghymru. Mae hwn yn gyfrifiad lefel unigol o weithlu'r ysgol a chaiff ei gasglu bob blwyddyn. Bydd yr elfennau gweithlu ysgol yn CYBLD yn cael eu dileu dros y ddau casgliad CYBLD nesaf gyda recriwtio a chadw athrawon yn cael eu dileu o CYBLD 2025. Oherwydd dibynion ar wybodaeth athrawon, staff cymorth ac addysgu trwy'r Gymraeg ar wybodaeth maint dosbarthiadau a'u defnydd wrth adrodd gwybodaeth, byddwn yn ymgryd a dadansoddi ac ymgysylltu pellach â defnyddwyr allweddoli ddeall effaith a goblygiadau o ddileu'r gwybodaeth yma o CYBLD gyd'r bwriad o ddileu'r gwybodaeth o CYBLD yn y dyfodol. Y bwriad yw cael gwared ar elfennau data'r gweithlu sy'n weddill o gasgliad CYBLD yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys modiwlau data athrawon, addysgu'r Gymraeg a staff cymorth.

3.2 Adolygiad hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd

Mae ystyriaethau yn parhau ar gofnodi a chasglu hunaniaeth genedlaethol ac ethnigrwydd unigolyn mewn ffordd gwell. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys trafodaethau gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth (SCLI) a'r Adran Addysg (AA) i sicrhau bod safon gytûn ystyriol a chydawns yn cael ei defnyddio gan bob sefydliad. Mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at newidiadau i'r ffordd y bydd y rhain yn cael eu cofnodi mewn casgliadau yn y dyfodol.

3.3 Datblygiadau yn y Dyfodol: Casglu Data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ofynion data newydd arfaethedig ar gyfer ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion yn Hydref 2025. Nod y cynigion hyn yw gwella ansawdd a chwmpas y data a gesglir drwy CYBLD. Gall newidiadau posibl yn y dyfodol gynnwys:

- Data ar lefel unigol ar blant a phobl ifanc ag ADY sy'n mynychu lleoliadau addysg a gynhelir yng Nghymru neu sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (AHYYY).
- Gwybodaeth am ddarpariaeth a chyflwyniad system ADY o fewn lleoliadau addysg a gynhelir, i gefnogi monitro a gwella'r system ADY.
- Data ar lefel unigol ar y gweithlu addysg mewn lleoliadau a gynhelir, i ddeall strwythurau staffio a chymorth sy'n gysylltiedig ag ADY yn well.

3.4 Datblygiadau eraill

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddatblygiadau penodol eraill wedi'u cynllunio ar gyfer casgliadau data PLASC yn y dyfodol.

4. Cyflwyniad

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf cofnodion disgyblion unigol, gan gynnwys enw'r disgybl a "rhif unigryw'r disgybl" (UPN), yn hytrach na chyfansymiau ysgol. Mae angen gwybodaeth hefyd am staff addysgu, staff nad ydynt yn addysgu, dosbarthiadau fel y'u haddysgir, swyddi addysgu gwag a gweithgareddau dysgu disgyblion.

Mae dadansoddiad o gofnodion disgyblion unigol o CYBLD, yn rhoi ystod lawer mwy o wybodaeth i ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau canolog nag sy'n bosibl gyda chyfansymiau ysgolion. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau ynghylch y ffordd orau i ddatblygu dysgu disgyblion ac i beidio â gwneud cymariaethau ysgol i ysgol neu ffurfio rhan o unrhyw system atebolrwydd. Dylid ei ddefnyddio hefyd i gefnogi hunanarfarnu ysgolion, targedu cyllid yn fwy cywir, a monitro a datblygu polisi.

Mae data CYBLD yn darparu'r data cyd-destunol a ddefnyddir yn y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (SDCCG). Caiff y SDCCG eu darparu i ysgolion (cynradd, canol ac uwchradd) ac awdurdodau lleol fel dulliau defnyddiol o ddadansoddi cyd-destun er mwyn ystyried atebolrwydd a chynllunio ar sail amgylchiadau unigol yr ysgol. Mae't SDCCG hefyd yn cael eu defnyddio gan Estyn fel rhan o'i ddeunyddiau arolygu. Felly, mae'n bwysig fod data CYBLD yn cael eu nodi'n gywir gan ysgolion er mwyn i'r deunyddiau hyn fod yn ddefnyddiol ac yn addas i'r ysgol a'r awdurdod lleol.

Bydd y cofnodion disgyblion unigol ar gyfer CYBLD yn cael eu cynhyrchu'n awtomatig gan eich meddalwedd gwybodaeth reoli (MIS) ac efallai na fydd modd golygu rhannau ohonynt â llaw. **Mae'n hanfodol felly bod yr holl ddata perthnasol am ddisgyblion yn cael ei roi yn eich system cyn creu datganiad CYBLD.** Bydd gwybodaeth am staff addysgu, staff nad ydynt yn addysgu, dosbarthiadau fel y'u haddysgir a swyddi addysgu gwag (cyn belled ag y bo modd) hefyd yn cael ei darparu'n awtomatig os oes data perthnasol wedi'u rhoi yn y system eisoes. Ond gellir bwydo'r wybodaeth hon yn uniongyrchol i ddatganiad CYBLD os bydd angen. Os nad ydych yn sicr pa ddata sydd eu hangen ar gyfer CYBLD 2026, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

Bydd eich meddalwedd yn cynnal cyfres o gamau dilysu helaeth ar y datganiad CYBLD, ac yn cynhyrchu adroddiadau ar wallau ac ymholiadau. **Mae'n hanfodol eich bod yn cywiro cymaint o wallau ag sy'n bosibl cyn anfon eich datganiad i'ch awdurdod lleol, ac yn ddelfrydol eu cywiro i gyd.** Os bydd gwallau ar ôl yn y ffeil pan fydd y datganiad yn cyrraedd Llywodraeth Cymru, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i chi ei ailgyflwyno. Bydd gofyn i'r ysgol gywiro'r gwallau yn eu meddalwedd gwybodaeth reoli (MIS) a dychwelyd y ffeil ddiwygiedig trwy [DEWi](#), y system trosglwyddo data'n ddiogel ar-lein. **Ni chaiff datganiadau eu golygu gan Lywodraeth Cymru ar ôl eu cyflwyno trwy [DEWi](#).**

Mae darparu cofnodion disgyblion unigol yn golygu bod datganiadau CYBLD yn fawr iawn ac na ellir edrych arnynt yn eu cyfanrwydd a'u gwirio'n llawn. Mae'r feddalwedd felly'n cynhyrchu "crynodeb ysgol" o'r datganiad CYBLD. Dylid craffu ar y crynodeb hwn yn fanwl cyn cymeradwyo'r datganiad a'i anfon i'ch awdurdod lleol.

Felly, dyma'r camau i gynhyrchu eich datganiad CYBLD:

- a. sicrhau bod yr holl ddata perthnasol am y disgyblion, yr ysgol, yr athrawon, y dosbarthiadau a'r swyddi gwag wedi'u cofnodi'n gywir yn eich system gwybodaeth reoli;
- b. cynhyrchu'r datganiad CYBLD, gan gofnodi unrhyw ddata arall nad ydynt yn ymwneud â disgyblion fel y bo angen;
- c. astudio'r adroddiadau ar wallau ac ymholiadau, a datrys cynifer ohonynt ag sy'n bosibl;
- d. craffu'n ofalus ar grynoded yr ysgol, gan edrych yn benodol am arwyddion bod rhywfaint o'r data am ddisgyblion heb eu cofnodi; a
- e. cael awdurdod y pennaeth ac anfon y datganiad, drwy gyfrwng system trosglwyddo data [DEWi](#), a'r crynodeb ysgol i'ch awdurdod lleol.

Dylid darllen y nodiadau cwblhau hyn ar y cyd ag unrhyw lawlyfr i ddefnyddwyr sydd ar gael gan eich awdurdod lleol yn benodol ar gyfer eich meddalwedd CYBLD a'r dogfennau a ddarparwyd gan gyflenwr eich meddalwedd.

Er bod y term awdurdod lleol bellach wedi disodli awdurdod addysg lleol yn gyffredinol drwy gydol y ddogfen hon, mae'r meysydd data ar gyfer CYBLD sy'n cynnwys awdurdod addysg lleol, er enghraifft **rhif AALI**, heb eu newid. Felly, mae'r ddogfen hon yn defnyddio awdurdod lleol wrth gyfeirio at yr awdurdod lleol ond yn parhau i ddefnyddio enwau'r meysydd data sy'n cynnwys awdurdod addysg lleol

5. Cofnodi a gwirio data

Mae'r nodiadau cwblhau hyn yn darparu rhestr lawn o'r holl eitemau data ynghylch y disgyblion a'r ysgol y mae'n rhaid eu bwydo i'ch system a'u cyflwyno yn eich datganiad CYBLD. Sylwer bod y meysydd data a welir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r gwerthoedd a'r tagiau yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei pharatoi ar gyfer ei throsglwyddo i'ch awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Cofiwch, efallai na fydd y gwerthoedd a'r tagiau hyn yn cyd-fynd bob amser â'r ffordd y mae'r meddalwedd yn cadw'r data'n fewnol neu'n eu cyflwyno i chi ar y sgrin.

Efallai bod eich meddalwedd yn cynnwys cyfres o "gampau gwirio data" a fydd yn eich helpu chi i nodi a chywiro gwallau ac anghysonderau yn eich data cyn cynhyrchu eich datganiad CYBLD. Ewch drwy'r broses hon yn ofalus gan y bydd yn lleihau'n sylweddol nifer y gwallau dilysu yn eich datganiad a'r gwaith y bydd angen i chi ei wneud wedyn i ddatrys y rhain.

Ni all y camau gwirio hyn, na'r rheolau dilysu y bydd y feddalwedd yn eu defnyddio ar gyfer y datganiad CYBLD wedi hynny, bennu a ydych wedi cynnwys yr holl ddata gofynnol am ddisgyblion - er enghraifft bod pob disgybl sydd wedi'i gofrestru'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi'i gofnodi felly yn eich system. Bydd y broses ddilysu yn cynhyrchu ymholiad os na fydd unrhyw un o'r disgyblion yn y datganiad wedi'u nodi'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ond ni cheir ymholiad os bydd rhai disgyblion yn gymwys, er y gall fod yna ddisgyblion eraill sy'n gymwys ond sydd heb eu cynnwys yn eich system.

Felly, er bod y camau gwirio data yn bwysig iawn, ni ellir cymryd yn ganiataol bod eu cwblhau yn llwyddiannus yn gwarantu bod yr holl ddata angenrheidiol wedi'u cynnwys ac y bydd eich datganiad CYBLD yn gywir. Nid yw'r ffaith nad oes unrhyw wallau dilysu neu ymholiadau yn sicrhau hynny chwaith. **Felly, rhaid i chi sicrhau eich bod wedi cynnwys yn llawn yn eich system yr holl ddata a amlinellir yn y fanyleb cofnodi data.**

NODYN PWYSIG: Oni nodir yn wahanol, mae'r holl eitemau data a ddisgrifir yn yr adrannau canlynol yn orfodol ar gyfer CYBLD 2025.

6. Crynodeb o'r meysydd data l'w cynnwys yng nghanasgliad data CYBLD

Noder bod y golofn 'data enghreifftiol' yn rhoi enghraifft i chi o'r math o ddata a ganiateir ar gyfer yr eitem honno o ddata, ac nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

Os yw'r golofn **ysgolion i gwblhau** yn cael ei gadael yn wag, nid oes angen i chi gofnodi'r eitem honno o ddata ar gyfer y math hwnnw o ysgol. Ond os yw'r gell yn llwyd, mae'r eitem honno'n ddewisol.

Rhaid i bob eitem o ddata gorfodol gael eu cofnodi os yw'r data ar gael i'r ysgol.

Allwedd

NS	Ysgol Feithrin
PS	Ysgol Gynradd
SS	Ysgol Uwchradd
SP	Ysgol Arbennig
MS	Ysgol Ganol

Dynodyddion ysgol

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Rhif yr AALI	3	Alffaniwmerig	660	NS	PS	SS	SP	MS
Rhif y sefydliad	4	Alffaniwmerig	4099	NS	PS	SS	SP	MS
Enw'r ysgol	100	Alffaniwmerig	Ysgol Gyfun Ynys Môn	NS	PS	SS	SP	MS
Cyfnod yr ysgol	2	Alffaniwmerig	MS	NS	PS	SS	SP	MS
UKPRN	8	Alffaniwmerig	11000000			SS	SP	MS

Manylion cyswllt yr ysgol

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Rhif ffôn yr ysgol	35	Alffaniwmerig	01234567890	NS	PS	SS	SP	MS

Nodweddion yr ysgol

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Y math o ysgol	2	Alffaniwmerig	52	NS	PS	SS	SP	MS
Ymrwymiad addysgu'r pennaeth	1	Alffaniwmerig	4		PS	SS	SP	MS
Cymysgedd rhyw yr ysgol	1	Alffaniwmerig	A	NS	PS	SS	SP	MS
Ffynhonnell ariannu	4	Alffaniwmerig	1111			SS		MS
Llaeth ysgol am ddim	4	Alffaniwmerig	23	NS	PS		SP	MS
Llaeth ysgol a brynwyd	4	Alffaniwmerig	76	NS	PS		SP	MS
Disgyblion amser llawn sy'n bresennol ar ddiwrnod y cyfrifiad	4	Alffaniwmerig	123	NS	PS	SS	SP	MS
Disgyblion rhan-amser sy'n	4	Alffaniwmerig	12	NS	PS		SP	MS

bresennol ar ddiwrnod y cyfrifiad								
Disgyblion sy'n bresennol yn y bore	4	Alffaniwmerig	2222	NS	PS		SP	MS
Disgyblion sy'n bresennol yn y prynhawn	4	Alffaniwmerig	2222	NS	PS		SP	MS
Trefniadau presenoldeb eraill	4	Alffaniwmerig	2222	NS	PS		SP	MS
Pynciau cyfrwng Cymraeg	2	Alffaniwmerig	5			SS		MS
Categori Iaith yr Ysgol	2	Alffaniwmerig	C1		PS	SS		MS
Prydau ysgol am ddim	4	Alffaniwmerig	23	NS	PS	SS	SP	MS
talau am brydau ysgol	4	Alffaniwmerig	20	NS	PS		SP	MS
Dosbarthiadau sydd wedi'u dynodi'n rhai arbennig gan yr Awdurdod Lleol	2	Alffaniwmerig	11	NS	PS	SS		MS
Nifer y disgyblion yn y dosbarthiadau a ddynodwyd yn arbennig gan yr Awdurdod Lleol o'r ysgol sy'n anfon y datganiad	4	Alffaniwmerig	2222	NS	PS	SS		MS
Nifer y disgyblion yn y dosbarthiadau a ddynodwyd yn arbennig gan yr Awdurdod Lleol o ysgolion eraill	4	Alffaniwmerig	2222	NS	PS	SS		MS
Cynllun agored	5	Cywir/Anghywir	0	NS				
Cael brecwast am ddim ar ddiwrnod y cyfrifiad	4	Alffaniwmerig	1080	NS	PS		SP	MS
Y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a gafodd frechwast am ddim ar ddiwrnod y cyfrifiad .	4	Alffaniwmerig	1930	NS	PS		SP	MS
Y disgyblion a gafodd frechwast am ddim yn ystod yr wythnos cyn diwrnod y cyfrifiad .	4	Alffaniwmerig	1260	NS	PS		SP	MS
Y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a gafodd un brecwast am ddim yn ystod yr wythnos cyn y cyfrifiad	4	Alffaniwmerig	1215	NS	PS		SP	MS

Llywodraethu

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Categori'r ysgol	2	Alffaniwmerig	CO		PS	SS		MS
Y pennaeth ar y corff llywodraethu	5	Cywir/Anghywir	0		PS	SS	SP	MS
Dynion ar y corff llywodraethu	2	Alffaniwmerig	3		PS	SS	SP	MS

Menywod ar y corff llywodraethu	2	Alffaniwmerig	3		PS	SS	SP	MS
Llywodraethwyr a all siarad Cymraeg	2	Alffaniwmerig	3		PS	SS	SP	MS
Swyddi gwag ar gyfer llywodraethwyr	2	Alffaniwmerig	3		PS	SS	SP	MS
Corff llywodraethu ffederal	5	Alffaniwmerig	F0023		PS	SS	SP	MS

Manylion yr arolwg

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Math o arolwg/data	5	Alffaniwmerig	CYBLD	NS	PS	SS	SP	MS
Dyddiad yr arolwg	10	Dyddiad	2026-01-20	NS	PS	SS	SP	MS
Y sawl sy'n gwneud yr arolwg	2	Alffaniwmerig	BM	NS	PS	SS	SP	MS
Amser cwblhau'r arolwg	3	Alffaniwmerig	005	NS	PS	SS	SP	MS

Manylion ysgol arbennig (ysgolion arbennig yn unig)

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Trefniadaeth yr ysgol	1	Alffaniwmerig	D				SP	
Prif angen arbennig (sylfaenol)	4	Alffaniwmerig	VI				SP	
Mathau o ddarpariaeth uwchradd	4	Alffaniwmerig	SLCD				SP	

Data dosbarthiadau

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Enw'r dosbarth	30	Alffaniwmerig	OAK	NS	PS	SS	SP	MS
Y categori o ddosbarth	1	Alffaniwmerig	O		PS			MS
Grŵp blwyddyn y dosbarth	2	Alffaniwmerig	5		PS	SS	SP	MS
Cyfnod allweddol y dosbarth	1	Alffaniwmerig	2		PS	SS	SP	MS
Lefel addysg Gymraeg y dosbarth	1	Alffaniwmerig	1		PS	SS	SP	MS
Nifer yr athrawon	2	Alffaniwmerig	1	NS	PS	SS	SP	MS
Nifer y staff heblaw athrawon	2	Alffaniwmerig	1	NS	PS	SS	SP	MS
Nifer y disgyblion yn y dosbarth y mae'r ysgol yn ysgol gartref iddynt	3	Alffaniwmerig	222	NS	PS	SS	SP	MS
Nifer y disgyblion yn y dosbarth sy'n westeion	3	Alffaniwmerig	111	NS	PS	SS	SP	MS
Disgyblion sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cyfrif ym maint dosbarthiadau	3	Alffaniwmerig	25		PS			MS
Rheswm dros eithriad (Babanod)	1	Alffaniwmerig	B		PS			MS

Rheswm dros eithriad (lau)	1	Alffaniwmerig	D		PS			MS
Disgyblion yn y dalgylch	2	Alffaniwmerig	3		PS			MS
Math cyfrif maint dosbarthiadau	1	Alffaniwmerig	I		PS			MS

Athrawon

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Athrawon nad ydynt yn addysgu	3	Alffaniwmerig	10			SS		MS
Categori'r athrawon	2	Alffaniwmerig	QT	NS	PS	SS	SP	MS
Rhyw	1	Alffaniwmerig	M	NS	PS	SS	SP	MS
Cyfnod swyddi'r athrawon	1	Alffaniwmerig	F	NS	PS	SS	SP	MS
Cyfanswm yr oriau y mae'r staff rhan-amser yn eu gweithio	4	Alffaniwmerig	30	NS	PS	SS	SP	MS
Nifer yr athrawon	2	Alffaniwmerig	50	NS	PS	SS	SP	MS
Contractau athrawon cymwysedig	2	Alffaniwmerig	20	NS	PS	SS	SP	MS
Yr oriau a weithir gan athrawon cymwysedig ar gontractau o flwyddyn neu lai	4	Alffaniwmerig	20	NS	PS	SS	SP	MS

Addysgu'r Gymraeg

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Categori'r addysg Gymraeg	2	Alffaniwmerig	TC		PS	SS		MS
Rhyw	1	Alffaniwmerig	F		PS	SS		MS
Cyfnod swydd athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg	1	Alffaniwmerig	F		PS	SS		MS
Oriau addysgu'r Gymraeg	4	Alffaniwmerig	20		PS	SS		MS
Nifer yr athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg	2	Alffaniwmerig	50		PS	SS		MS

Data staff cymorth

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Categori'r staff cymorth	2	Alffaniwmerig	TA	NS	PS	SS	SP	MS
Rhyw	1	Alffaniwmerig	F	NS	PS	SS	SP	MS
Cyfnod swydd y staff cymorth	1	Alffaniwmerig	P	NS	PS	SS	SP	MS
Cyfanswm yr oriau y mae'r staff rhan-amser yn eu gweithio	4	Alffaniwmerig	30	NS	PS	SS	SP	MS
Nifer y staff cymorth	2	Alffaniwmerig	50	NS	PS	SS	SP	MS

Data lefel disgyblion unigol (ar y gofrestr)

Dynodyddion disgyblion

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)	13	Alffaniwmerig	Z123456789012	NS	PS	SS	SP	MS
Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN)	10	Alffaniwmerig	8534567891			SS		MS
Rhif unigryw blaenorol	13	Alffaniwmerig	A123456789012	NS	PS	SS	SP	MS
Cyfenw	35	Alffaniwmerig	Jones	NS	PS	SS	SP	MS
Enw blaen	35	Alffaniwmerig	Marc	NS	PS	SS	SP	MS
Enw(au) canol	35	Alffaniwmerig	Iwan Owen	NS	PS	SS	SP	MS
Dyddiad geni	10	Dyddiad	2011-03-31	NS	PS	SS	SP	MS
Rhyw	1	Alffaniwmerig	M	NS	PS	SS	SP	MS

Nodweddion disgyblion

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Hunaniaeth genedlaethol	3	Alffaniwmerig	WAL	NS	PS	SS	SP	MS
Grŵp ethnig	4	Alffaniwmerig	WOTH	NS	PS	SS	SP	MS
Ffynhonnell ethnigrwydd	1	Alffaniwmerig	P	NS	PS	SS	SP	MS
Cymhwyster disgyblion i gael prydau ysgol am ddim	1	Cywir/Anghywir	0	NS	PS	SS	SP	MS
Gwarchodaeth trosiannol disgyblion i gael prydau ysgol am ddim	1	Cywir/Anghywir	1	NS	PS	SS	SP	MS
Saesneg fel iaith ychwanegol	1	Alffaniwmerig	A	NS	PS	SS		MS
Math o iaith	1	Alffaniwmerig	F		PS	SS	SP	MS
Cod iaith gyntaf	4	Alffaniwmerig	ABA		PS	SS	SP	MS
Ffynhonnell yr iaith	1	Alffaniwmerig	P		PS	SS	SP	MS

Statws disgyblion

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Statws cofrestru	1	Alffaniwmerig	C	NS	PS	SS	SP	MS
Dyddiad derbyn i'r ysgol bresennol	10	Dyddiad	2012-09-01	NS	PS	SS	SP	MS
Dangosydd rhan-amser	5	Cywir/Anghywir	Anghywir	NS	PS	SS	SP	MS
Dynodydd disgybl preswyl	1	Alffaniwmerig	N				SP	
Grŵp blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol	2	Alffaniwmerig	12	NS	PS	SS	SP	MS
Enw'r dosbarth	30	Alffaniwmerig	OAK		PS			MS
Cod post y cartref	8	Alffaniwmerig	CF14 5DZ	NS	PS	SS	SP	MS

Anghenion dysgu ychwanegol

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Darpapiaeth ADY disgybl	1	Alffaniwmerig	S	NS	PS	SS	SP	MS
Anghenion ychwanegol	4	Alffaniwmerig	HI	NS	PS	SS	SP	MS

Y Gymraeg

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Rhuglder yn y Gymraeg	1	Alffaniwmerig	1		PS	SS		MS
Siarad Cymraeg gartref	1	Alffaniwmerig	1		PS	SS		MS
Ffynhonnell y Gymraeg	1	Alffaniwmerig	P		PS	SS		MS
Astudio'r Gymraeg	1	Alffaniwmerig	1		PS	SS		MS
Addysg cyfrwng Cymraeg	5	Cywir/Anghywir	0			SS		MS

Data gwaharddiadau

Enw'r maes	Hyd y maes	Math o faes	Data enghreifftiol	Ysgolion i gwblhau				
Dyddiad dechrau'r gwaharddiad	10	Dyddiad	2024-12-15		PS	SS	SP	MS
Rheswm dros y gwaharddiad	2	Alffaniwmerig	BU		PS	SS	SP	MS
Categori gwahardd	4	Alffaniwmerig	FIXD		PS	SS	SP	MS
Nifer y sesiynau a gollwyd	3	Alffaniwmerig	246		PS	SS	SP	MS

7. Data disgyblion unigol

Mae angen data am ddisgyblion unigol ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr ar ddiwrnod y cyfrifiad (dydd Mawrth 20 Ionawr 2026) ac ar gyfer disgyblion (ac eithrio ysgolion meithrin) a waharddwyd yn barhaol ac am gyfnod penodol yn y flwyddyn ysgol flaenorol (2024/2025).

Lle nad oes gan ysgol ddisgyblion ar y gofrestr ar ddiwrnod y cyfrifiad dylid ystyried bod yr ysgol ynghau.

Heblaw eu bod wedi'u nodi'n benodol fel rhai dewisol, ni chaniateir hepgor gwerthoedd (h.y. gadael bylchau) ar gyfer unrhyw eitem o ddata ac, os bydd yna rai, ni chânt eu dilysu. Lle bo'n bosibl, mae cyfleusterau "llenwi mewn bloc" neu "lif-lenwi" wedi'u darparu yn rhan o'r feddalwedd ar gyfer system gwybodaeth reoli eich ysgol. Darllenwch y dogfennau sy'n berthnasol i'ch meddalwedd chi, sef y dogfennau a gawsoch gan eich cyflenwr, i weld sut i ddefnyddio'r cyfleuster hwn wrth gwblhau eich datganiad CYBLD.

Mae gwerthoedd y codau a welwch yn [atodiad A](#) yn adlewyrchu'r gwerthoedd yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei pharatoi ar gyfer ei throsglwyddo i'ch awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Cofiwch, efallai na fydd y gwerthoedd hyn yn cyd-fynd bob amser â'r ffordd y mae'r meddalwedd yn cadw'r data'n fewnol neu'n eu cyflwyno i chi ar y sgrin.

7.1 Sut caiff y broses o gofrestru disgyblion eu diffinio?

Mae'r broses o gofrestru disgyblion yn cael ei rheoli gan [Reoliadau Addysg \(Cofrestru Disgyblion\) \(Cymru\) 2010](#). Mae [Rheoliad 6](#) yn nodi'r wybodaeth y dylid ei chynnwys ar gofrestr derbyn yr ysgol ac mae [Rheoliad 9](#) yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir tynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr.

Dylid darparu gwybodaeth ar gyfer disgyblion ar gofrestr derbyn yr ysgol yn unig (yn unol â [Rheoliad 6](#) o [Reoliadau Addysg \(Cofrestru Disgyblion\) \(Cymru\) 2010](#) ar ddiwrnod y cyfrifiad.

Dylid cynnwys disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol gydag ysgol arbennig neu uned cyfeirio disgyblion. Dylai statws cofrestru disgyblion o'r fath gael ei bennu fel **M** neu **S** fel sy'n briodol.

7.2 Disgyblion a waharddwyd (yn barhaol ac am gyfnod penodol) ym mlwyddyn ysgol 2024/2025¹

Mae'n hollbwysig bod y data a ddarperir ar waharddiadau yn gywir ac yn gyflawn, gan gynnwys data a gasglwyd gan ysgolion sydd newydd eu huno. Mae angen cael gwybodaeth ddibynadwy am y gwir sefyllfa ar draws Cymru i lywio arferion presennol a phenderfyniadau ynghylch polisiau yn y dyfodol.

¹ Nid yw'r data ar waharddiadau yn berthnasol i ysgolion meithrin.

Ni ddylid cynnwys gwaharddiadau os oeddent wedi'u diddymu gan y pennaeth, neu os oedd y disgybl wedi'i dderbyn yn ôl gan y pwyllgor disgyblu neu gan banel apêl annibynnol.

Dylid cyfrif gwaharddiadau os oedd dyddiad y gwaharddiad yn ystod y cyfnod **1 Medi 2024 i 31 Awst 2025**, gan gynnwys lle bo dyddiad y gwaharddiad:

- pan benderfynwyd gwahardd yn barhaol gan banel apêl annibynnol; neu
- pan ddaeth y cyfnod a ragnodwyd ar gyfer apêl i ben a bod y rhiant heb hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw fwriad i apelio; neu
- pan hysbyswyd yr awdurdod lleol yn ysgrifenedig gan y rhiant nad oedd yn bwriadu apelio; neu
- pan dynnodd y rhiant yn ôl o'r broses apelio, ar ôl hysbysu'r awdurdod lleol o'i fwriad i apelio.

8. Staff addysgu a staff cymorth

NODYN PWYSIG: hyd yn oed bod y Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgol (SWAC) wedi'i gyflwyno, mae angen y data hwn o hyd fel rhan o'ch ffurflen CYBLD ar hyn o bryd.

Dylid **cynnwys** y staff addysgu a'r staff cymorth canlynol yn y datganiad.

- staff sy'n absennol dros dro (am lai na thymor);
- staff sy'n cyflenwi dros unrhyw un sydd ar absenoldeb tymor hir/absenoldeb oherwydd salwch neu secondiad (am dymor neu fwy);
- staff dros dro/cyflenwi sy'n llenwi swydd mewn enw yn unig;
- athrawon peripatetig, gan gynnwys athrawon bro sy'n addysgu'r Gymraeg yn yr ysgol ar **20 Ionawr 2026**.

Dylid **eithrio**'r staff addysgu a'r staff cymorth canlynol o'r datganiad:

- unrhyw un sydd ar absenoldeb tymor hir/absenoldeb oherwydd salwch neu secondiad (am dymor neu fwy);
- staff dros dro/cyflenwi sy'n llenwi swydd aelod sy'n absennol am gyfnod byr neu unrhyw swyddi nad ydynt wedi'u llenwi gan staff dros dro/cyflenwi;
- unigolion sy'n ennill profiad cyn cychwyn, o bosibl, ar gwrs y Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal ac Addysg Plant (CACHE);
- pobl sy'n cael eu defnyddio fel 'cynorthwyr' di-dâl.

Ar gyfer staff **amser llawn**, rhwch gyfanswm y staff yn ôl categori; ac ar gyfer y pennaeth, pennaeth dros dro, dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol ac athrawon cymwysedig eraill yn unig, nodwch nifer y staff ar gontractau o flwyddyn neu lai.

Ar gyfer staff **rhan-amser**, rhwch gyfanswm y staff yn ôl categori; ac ar gyfer y pennaeth, pennaeth dros dro, dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol ac athrawon cymwysedig eraill yn unig, nodwch nifer y staff ar gontractau o flwyddyn neu lai. Yn ogystal, rhwch **gyfanswm yr oriau cyfeiriedig yr wythnos**.

Pan fo aelod staff yn cael ei rannu rhwng dwy ysgol, dylai'r gyfran o'r amser sy'n cael ei dreulio yn y sefydliad gael ei nodi ar gyfer y naill ysgol a'r llall, neu dylid nodi cyfanswm oriau'r aelod staff ar ffurflen un ysgol yn unig. Ni ddylid nodi cyfanswm oriau'r aelod staff ar gyfer mwy nag un sefydliad.

Ar gyfer **athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg**, rhwch nifer yr athrawon cymwysedig sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd ag addysgu'r Gymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. **Peidiwch** â chynnwys athrawon bro sy'n addysgu'r Gymraeg a all fod yn dysgu yn eich ysgol chi (bydd y rhain yn cael eu cynnwys o dan athrawon peripatetig). Yn ogystal, ar gyfer staff amser llawn a rhan-amser, rhwch nifer yr **oriau yr wythnos** a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r oriau y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu.

Cofnodwch nifer yr athrawon cymwysedig sy'n **gallu addysgu'r Gymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**, ond nad ydynt yn gwneud hynny. **Peidiwch** â chynnwys penaethiaid nad oes ganddynt ymrwymiad addysgu.

Lle defnyddir athrawon cymwysedig o 'gronfa' i wasanaethu ysgol, dylent gael eu cynnwys naill ai fel athrawon **peripatetig** os ydynt yn ymweld â nifer amrywiol o ysgolion, neu fel athrawon **rhan-amser** os ydynt yn addysgu mewn ysgol neu ysgolion penodol yn rheolaidd.

Ar gyfer **staff cymorth**, rhowch nifer y staff amser llawn a rhan-amser ac, ar gyfer staff rhan-amser, cyfanswm yr oriau cyfeiriedig bob wythnos. Mae aelod o staff cymorth yn cael ei hystyried yn llawn amser os yw'n gweithio 32.5 awr cyfeiriedig bob wythnos (nid oes angen cynnwys oriau staff llawn amser). Os bydd staff rhan-amser yn gweithio mwy na 32.5 awr yr wythnos, dylid cofnodi eu horiau. Dylid cynnwys staff sy'n gweithio wythnos llawn ond yn ystod y tymor yn unig, fel staff amser llawn.

Mae angen cynnwys staff cymorth sy'n bresennol mewn ystafell ddosbarth yn benodol ar gyfer gwneud gwaith un-i-un wrth gyfrif nifer y staff yn yr ysgol.

Pan fydd y niferoedd yn cael ei dylanwadu gan rannu swyddi neu staff rhan-amser yn gwneud mwy nag un swydd mewn ysgol, dylai'r nifer o staff cyfwerth ag amser llawn gael blaenoriaeth.

Mae angen yr holl wybodaeth am athrawon a staff cymorth yn ôl **rhyw**.

Mae'r categorïau a'r codau dilys ar gyfer staff addysgu a staff cymorth i'w cael yn [atodiad E](#).

9. Dosbarthiadau fel y'u haddusgir

Mae angen manylion yr holl ddosbarthiadau cofrestredig **sy'n cael eu cynnal yn ystod y drydedd wers ar amserlen yr ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad** (dydd Mawrth 20 Ionawr 2026) neu ar ddydd Mawrth arferol yn achos ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd. Os nad dosbarth 'arferol' yw'r drydedd wers yna defnyddiwch y cyfnod normal agosaf at hynny. **Dylech nodi pob disgybl unwaith yn unig.** Mewn ysgolion heb ddarpariaeth Ôl-16 dylai nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau unigol gyfateb i nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr.

Lle mae disgyblion amser llawn a rhan-amser bore a phrynhawn mewn dosbarth, dylai maint y dosbarth gyfateb i nifer y disgyblion amser llawn **yn ogystal** â naill ai nifer y disgyblion rhan-amser yn y bore neu'r prynhawn, pa un bynnag yw'r mwyaf. Er enghraifft, dylai dosbarth sydd ag 20 o ddisgyblion amser llawn, 10 disgybl rhan-amser yn y bore a 5 disgybl rhan-amser yn y prynhawn gael ei gofnodi fel dosbarth o 30 o ddisgyblion. Dylid trin dosbarthiadau sydd â disgyblion rhan-amser yn unig fel dosbarthiadau ar wahân. Er enghraifft, dylai ysgol sydd ag un dosbarth rhan-amser yn y bore ac un dosbarth rhan-amser yn y prynhawn, heb ddisgyblion amser llawn yn y naill na'r llall, gofnodi dosbarthiadau'r bore a'r prynhawn ar wahân².

Peidiwch â chofnodi sefyllfaoedd anghyffredin megis dosbarthiadau wedi'u cyfuno neu ysgol ar gau, a all fod wedi digwydd ar ddiwrnod y cyfrifiad o ganlyniad i hyfforddiant neu absenoldeb staff, neu dywydd gwael er enghraifft. Dylid cynnwys disgyblion sy'n bresennol fel arfer ond sy'n absennol ar ddiwrnod y cyfrif.

Mewn sefyllfa lle mae athro yn addysgu un dosbarth yn y bore a dosbarth gwahanol yn y prynhawn, dylid cynnwys yr athro yn y ddau ddosbarth. Mae'r rheol hon hefyd yn berthnasol i staff cymorth.

Os oes dau (neu ragor) o athrawon cymwys yn bresennol drwy'r amser gyda mwy na 30 disgybl (ond llai na 61), ystyrir bod y dosbarthiadau hyn wedi cyrraedd yr uchafswm o ran maint dosbarthiadau babanod a'r targed o ran maint dosbarthiadau iau. Lle bo dosbarthiadau o'r fath yn bodoli, dylent gael eu cofnodi fel dau ddosbarth ar wahân at ddibenion cyfrif maint dosbarthiadau, a rhannu'r disgyblion fel bod 30 neu lai o ddisgyblion ym mhob dosbarth. Hefyd, ble y ceir dosbarth cyfnod sylfaen mewn ysgol, dim ond athrawon wedi cymhwyso'n llawn a gaiff eu cyflogi fel athrawon yn y dosbarth hwnnw sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo maint y dosbarth. Mae dosbarthiadau sylfaen o dros 30 o ddisgyblion yn torri [Adran 1 o Ddeddf Safonau a Framwaith Ysgolion 1998](#) os mai dim ond un athro cymwysedig sydd ganddynt ac os nad oes unrhyw ddisgyblion wedi'u heithrio, waeth faint o gynorthwywyr dosbarth sydd yno.

Mewn dosbarth meithrin/derbyn cymysg (neu grŵp oedran 4-7 arall), lle mae nifer y disgyblion dros 30, caiff y [Rheoliadau Derbyniadau Ysgol \(Meintiau Dosbarthiadau Babanod\) \(Cymru\) 2013](#) eu torri os bydd nifer y plant derbyn (neu hŷn) yn fwy na nifer y plant meithrin mewn unrhyw sesiwn dysgu cyffredin. Fodd bynnag, os bydd nifer y plant meithrin yn ystod pob sesiwn yn ystod diwrnod ysgol yn fwy na nifer y

² Nid yw pwysntiau 9.2 a 9.4 yn berthnasol i ysgolion uwchradd.

plant derbyn, neu os bydd nifer y plant meithrin a'r plant derbyn yn union yr un fath, yna nid yw'r dosbarth yn torri'r Rheoliadau³.

Mae [atodiad F](#) yn rhestru'r holl gyfuniadau posibl o grwpiau blwyddyn a chyfnod allweddol ar gyfer pob math o ddosbarth.

³ Mae pwyntiau 6.5 a 6.6 ond yn berthnasol i ysgolion cynradd ac ysgolion canol.

10. Dilysu data a chywirow gwallau

Bydd eich meddalwedd yn rhoi adroddiad manwl ar y gwallau dilysu a'r ymholiadau dilysu yn eich datganiad. Mae **gwall** yn golygu bod nod neu werth anghyfreithlon mewn eitem o ddata, neu anghysondeb rhesymegol rhwng eitemau o ddata neu rhwng gwahanol agweddau ar y datganiad.

Ceir hefyd dau fath o **ymholiad**. Gallant fod yn gysylltiedig â nodwedd anghyffredin yn y data (er enghraifft nad oes unrhyw ddisgybl wedi'i nodi'n un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol), sy'n awgrymu, ond nid yn profi, bod diffyg cywirdeb neu fod rhywbeth wedi'i hepgor; neu gallant gael eu defnyddio fel ysgogiad mewn rhai meysydd lle tybir bod yna berygl sylweddol y bydd gwybodaeth heb ei chynnwys – cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft. Efallai na fydd gan rai ysgolion ddisgyblion ar y gofrestr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond mae'r rhain yn eithriadau a bydd y feddalwedd yn gwneud ymholiadau mewn achosion o'r fath. Mae angen archwilio'r ddau fath o ymholiad er mwyn gweld a oes diffyg cywirdeb neu a oes rhywbeth wedi'i hepgor, er y gellir dod i'r casgliad yn y pen draw bod y data mewn gwirionedd yn gywir.

Mae'n hanfodol eich bod yn cywiro cymaint o wallau ag sy'n bosibl cyn cyflwyno eich datganiad i'ch awdurdod lleol, ac yn ddelfrydol eu cywiro i gyd. Mae'n hanfodol hefyd eich bod yn archwilio pob ymholiad ac yn diwygio data lle gwelir eu bod yn anghywir.

Efallai y bydd datganiadau a fydd yn cynnwys gwallau pan fyddant yn cyrraedd Llywodraeth Cymru yn cael eu gwrthod ac y bydd yn rhaid eu hailgyflwyno.

Mae gofyn i'r ysgol gywiro'r gwallau yn eu meddalwedd gwybodaeth reoli (MIS) a dychwelyd y ffeil ddiwygiedig trwy [DEWi](#), y system trosglwyddo data'n ddiogel ar-lein.

Ni chaiff ffurflenni eu golygu gan Lywodraeth Cymru ar ôl eu dychwelyd trwy [DEWi](#). Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio un trothwy cyffredinol ar gyfer pob ysgol ond yn hytrach bydd yn edrych ar bob ysgol yn unigol.

Efallai y bydd eich awdurdod lleol hefyd yn gosod trothwy gwallau ar gyfer y datganiad y bydd yn ei dderbyn oddi wrthyh a dylech eu holi nhw am hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cymharu datganiad CYBLD 2025 â'r un a wnaeth yr ysgol ym mis Ionawr 2025. **Gwneir cymariaethau rhwng niferoedd y disgyblion, yr athrawon a'r dosbarthiadau, a nifer y disgyblion sydd â hawl i brydau am ddim neu sydd â datganiadau AAA. Bydd Llywodraeth Cymru yn cwestiynu unrhyw gymhariaeth sy'n dangos mwy o newid na'r hyn a awgrymir gan ddata hanesyddol.**

11. Crynodeb yr ysgol

Mae crynodeb yr ysgol yn cael ei greu'n awtomatig gan y feddalwedd. Ei ddiben yw galluogi'r staff sy'n paratoi'r datganiad, a'r pennaeth sy'n ei awdurdodi, i asesu pa mor gywir a chyflawn ydyw o ystyried bod y datganiad ei hun yn rhy fawr i allu edrych arni yn ei chyfanrwydd yn hawdd.

Dylid gwirio'r crynodeb yn fanwl, gan dalu sylw arbennig i'r rhannau hynny a all ddangos tystiolaeth nad oedd rhywfaint o ddata disgyblion unigol wedi'i gofnodi yn eich system cyn creu'r datganiad, megis⁴:

- nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ôl rhyw, oed, modd mynychu a statws cofrestru;
- nifer y disgyblion yn ôl grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol;
- nifer y disgyblion sy'n rhugl yn y Gymraeg, a chategorïau eraill yn ymwneud â iaith gyntaf neu ieithoedd a siaredir;
- nifer y disgyblion y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu iddynt, yn ôl y math o gwrs Cymraeg;
- nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (gyda'r nifer a gafodd bryd ysgol am ddim ar ddiwrnod y Cyfrifiad hefyd wedi'i ddangos at ddibenion cymharu);
- nifer y disgyblion a gofnodwyd fel rhai a gafodd laeth am ddim ar ddiwrnod y Cyfrifiad;
- nifer y disgyblion â ADY;
- nifer y disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL);
- nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau a ddynodwyd yn rhai arbennig gan yr awdurdod lleol;
- nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- nifer y gwaharddiadau parhaol ac am gyfnod penodol ym mlwyddyn ysgol 2024/2025.

Mae'r crynodeb hefyd yn darparu rhai ystadegau allweddol sy'n deillio o'r data ynghylch y dosbarthiadau sy'n cael eu haddysgu, y staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu. Dylid gwirio'r rhain yn ofalus hefyd am arwyddion bod y data sylfaenol yn anghywir neu'n anghyflawn.

Yn olaf, mae'r crynodeb yn dangos cyfanswm y gwallau a'r ymholiadau yn y datganiad na chawsant eu datrys, gan roi rhyw arwydd a yw'r datganiad yn debygol o gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

⁴ Sylwer bod crynodeb yr ysgol yn amrywio yn ôl y math o ysgol ac felly ni fydd pob un o'r enghreifftiau a restrir yn berthnasol i'ch ysgol chi.

12. Anfon y datganiad i'ch awdurdod lleol

Ar ôl i'r pennaeth awdurdodi'r datganiad dylid ei anfon i'ch awdurdod lleol drwy [DEWi](#), ar yr un pryd â'r crynodeb ysgol. Bydd yr union ddull a ddefnyddir i gwblhau'r broses o drosglwyddo'r wybodaeth yn amrywio o un awdurdod i'r llall, ac felly cysylltwch â'ch awdurdod lleol chi i gael rhagor o fanylion.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich ffurflen CYBLD i Lywodraeth Cymru yw **6 Mawrth 2026**. Mae pob awdurdod lleol yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno ffurflenni. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol er mwyn cael gwybod beth yw'r dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd eich ffurflen.

Atodiad A: Nodiadau cwblhau manwl yn ôl maes data

Diben yr Atodiad hwn yw darparu gwybodaeth lawn am bob maes data CYBLD mewn fformat hawdd ei ddarllen. Nid yw'n disodli'r wybodaeth yn Adrannau 4, 5 a 6 ond yn hytrach mae'n ategu'r wybodaeth bwysig a ddarperir yn yr adrannau hynny, ac yn helpu'r rheini sy'n defnyddio'r nodiadau hyn i ddod o hyd i wybodaeth am faes penodol yn gyflym.

Yn yr Atodiad hwn, rhestrir pob maes a nodwyd yng Nghasgliad CYBLD Ionawr 2026, a darperir manylion y maes mewn fformat safonol. Rhoddir isod esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob rhan o'r templed.

Fformat ar gyfer y meysydd data yn yr atodiad

Enw'r maes	Enw'r maes fel y defnyddir yn y ffeil XML a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan eich meddalwedd	Hyd y maes	Hyd y maes yn ôl nifer y nodau
Math o faes	Math o faes [Alffaniwmerig, Niwmerig, Cywir/Anghywir neu Ddyddiad]	Gorfodol ar gyfer	Pa fathau o ysgolion sy'n gorfod llenwi'r adran hon?
Rheswm	Gwybodaeth ynghylch pam fod angen y data hyn a sut caiff y data eu defnyddio		
Cofnodion dilys	Rhestr o'r gwerthoedd, a'u disgrifiadau, y gellid eu cynnwys o fewn y maes data hwn. Sylwer: dyma'r gwerthoedd sydd eu hangen yn y ffeil ddata y mae eich meddalwedd yn ei chyflwyno a gallent fod yn wahanol i'r modd y mae'r data'n cael eu cyflwyno i chi gan eich meddalwedd.		
Nodiadau	Unrhyw nodiadau amrywiol a manylion pellach, ynghyd ag enghraifft o ddata dilys y gellid eu cynnwys yn y maes a lle gellir dod o hyd iddo.		

Dynodyddion ysgol

Enw'r maes	Rhif yr AALI	Hyd y Maes	3
Math o faes	Alffaniwmerig	Gorfodol ar gyfer	Pob Ysgol

Rheswm I nodi'r awdurdod lleol y mae'r ysgol yn gysylltiedig ag ef.

Cofnodion
cywir Yn cynnwys tri digid yn yr ystod 660-681

660	Ynys Môn
661	Gwynedd
662	Conwy
663	Sir Ddinbych
664	Sir y Fflint
665	Wreccsam
666	Powys
667	Ceredigion
668	Sir Benfro
669	Sir Gaerfyrddin
670	Abertawe
671	Castell-nedd Port Talbot
672	Pen-y-bont ar Ogwr
673	Bro Morgannwg
674	Rhondda Cynon Taf
675	Merthyr Tudful
676	Caerffili
677	Blaenau Gwent
678	Torfaen
679	Mynwy
680	Casnewydd
681	Caerdydd

Nodiadau Data enghreifftiol: **660**

Dynodyddion ysgol

Enw'r maes	Rhif y sefydliad	Hyd y maes	4
Math o faes	Alffaniwmerig	Gorfodol ar gyfer	Pob Ysgol

Rheswm	I nodi'r ysgol sy'n anfon y datganiad		
Cofnodion dilys	Yn cynnwys pedwar digid, yn yr ystodau canlynol:		
	1000 - 1099	Ysgolion meithrin	
	1100 - 1199	Unedau Cyfeirio Disgyblion	
	1900 - 1999	EOTAS (a ddefnyddiwyd cyn 2010 - gweler 9000)	
	2000 - 2999	Ysgolion cynradd cymunedol	
	3000 - 3299	Ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir	
	3300 - 3399	Ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir	
	4000 - 4499	Ysgolion uwchradd cymunedol	
	4500 - 4599	Ysgolion uwchradd gwirfoddol a reolir	
	4600 - 4699	Ysgolion uwchradd gwirfoddol a gynorthwyir	
